

# CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio  
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA  
Dydd Mawrth, 6ed Awst, 2024, 2.00 pm

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cyngorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)  
Cyngorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cyngorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Sara Burch, Jan Butler, John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Ann Webb

## SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Craig O'Connor	Pennaeth Cynllunio
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Paige Moseley	Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## YMDDIHEURIADAU:

Cyngorydd Sirol Meirion Howells

### 1. Datganiadau o Fuddiant.

Dim.

### 2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 16<sup>eg</sup> Gorffennaf 2024 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

[https://www.youtube.com/live/UkAu\\_BK9gb8?si=trW4xb9LspxvVN3Y&t=99](https://www.youtube.com/live/UkAu_BK9gb8?si=trW4xb9LspxvVN3Y&t=99)

### 3. Cais DM/2022/01815 - Dymchwel adeilad gwreiddiol y siop, ailfodelu'r llety gwely a brecwast a gedwir er mwyn darparu annedd ar wahân pedair ystafell wely, adeiladu pedair annedd newydd ar ffurf dau bâr o gartrefi ar wahân â dwy ystafell wely, ac adeiladu siop bentref newydd dwy ystafell wely (Rheolwr Siop) yn y fflat uwchben, gyda gwaith allanol cysylltiedig (gweler cais Caniatâd Ardal Gadwraeth gydamserol: DM/2022/01835). Browns General Stores, Llandoqo Road, Llaneuddogwy.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w cymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106. Hefyd, bod yr amod ychwanegol canlynol yn cael ei ychwanegu:

- Ni fydd unedau 1,2,4 a 5 yn cael eu meddiannu nes bod y safle manwerthu wedi'i adeiladu a'i gwblhau. Y rheswm yw er mwyn diogelu darpariaeth y cyfleuster cymunedol yn unol â Pholisi CRF1.

## CYNGOR SIR FYNWY

**Pwyllgor Cynllunio**  
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**  
**Dydd Mawrth, 6ed Awst, 2024, 2.00 pm**

[https://www.youtube.com/live/UkAu\\_BK9qb8?si=9QapAUEn0q9OmsE7&t=110](https://www.youtube.com/live/UkAu_BK9qb8?si=9QapAUEn0q9OmsE7&t=110)

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd y cais gan y Cyngorydd Sirol Ann Webb a'i eilio gan y Cyngorydd Sirol Maureen Powell y dylid cymeradwyo cais DM/2022/01815 n amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106. Hefyd, bod yr amod ychwanegol canlynol yn cael ei ychwanegu:

- Ni fydd unedau 1,2,4 a 5 yn cael eu meddiannu nes bod y safle manwerthu wedi'i adeiladu a'i gwblhau. Y rheswm yw er mwyn diogelu darpariaeth y cyfleuster cymunedol yn unol â Pholisi CRF1.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid	-	15
Yn erbyn	-	0
Ymatal	-	0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2022/01815 yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106. Hefyd, bod yr amod ychwanegol canlynol yn cael ei ychwanegu:

- Ni fydd unedau 1,2,4 a 5 yn cael eu meddiannu nes bod y safle manwerthu wedi'i adeiladu a'i gwblhau. Y rheswm yw er mwyn diogelu darpariaeth y cyfleuster cymunedol yn unol â Pholisi CRF1

#### **4. ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio - Penderfyniadau o ran Apeliadau a Dderbyniwyd**

[https://www.youtube.com/live/UkAu\\_BK9qb8?si=h1YYpIYVKaA2nU5N&t=1618](https://www.youtube.com/live/UkAu_BK9qb8?si=h1YYpIYVKaA2nU5N&t=1618)

##### **4.1. The Haven, Gypsy Crescent, Llan-ffwyst.**

Cawsom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliadau safle a gynhaliwyd yn The Haven, Gypsy Crescent, Llan-ffwyst ar 11<sup>eg</sup> Mehefin 2024.

Nodom fod yr apêl wedi'i gwrthod.